Gweithgor Amrywio Incwm

10 Mehefin 2026

Aelodau yn Bresennol:
Y Cynghorydd D Clements, Miss Fiona Day, y Cynghorydd Claire George, Dr M Havard, Mrs S Hoss a'r Cynghorydd M James.

Swyddogion yn Bresennol:
Catrin Evans, Georgia Jones (Cofnodion), Tegryn Jones, a Sara Morris.

[Ar-lein 13:30 – 15:00]

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

2. Cofnodion
Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2025.

Nodwyd.

3. Diweddariad ar y Mesurau Arbed Costau Heblaw am Staff
Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y camau a gymerwyd o ran y mesurau i arbed costau heblaw am gostau staff, fel y trafodwyd yn wreiddiol yn y gweithdy ar yr 2ail o Ebrill 2025.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod cwestiwn yn codi ynghylch i ba raddau y byddai mwy fyth o arbedion costau, heblaw am gostau staff, yn help i fynd i'r afael â diffyg ariannol yr Awdurdod. Awgrymwyd felly y byddai angen trafodaeth gyda'r Aelodau yn yr Hydref i weld pa opsiynau eraill allai gydbwyso'r gyllideb.

O ran y lwfans defnyddiwr car hanfodol, gofynnodd Aelod a oedd unrhyw adborth wedi dod oddi wrth y staff yn dilyn y newidiadau. Eglurodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu mai'r Tîm Cynllunio oedd wedi'i effeithio yn bennaf gan y newidiadau, a bod cynnydd yn y defnydd o geir pwll wedi'i weld o ganlyniad. Ychwanegwyd bod car pwll wedi'i adleoli i Gilrhedyn i ateb y galw.

Nododd Aelod y mesur oedd yn ymwneud â chonsesiynau, a gofynnodd a oedd unrhyw draethau ychwanegol y gellid eu defnyddio ar gyfer consesiynau. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai angen i'r Aelodau benderfynu ar y nifer o gonsesiynau yn y Parc Cenedlaethol gan y byddai gofyn cael cydbwysedd i osgoi cystadlu â busnesau lleol. Cytunodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu i archwilio a fyddai unrhyw draethau

ychwanegol yn addas ar gyfer consesiynau, ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r Aelodau am drafodaeth bellach.

O ran y mesur i atal staff rhag mynychu pob cyfarfod o Grŵp y Parc, cadarnhawyd bod digwyddiadau yn cael eu monitro gyda'r bwriad yn y pen draw o osod terfyn ar nifer y staff allai fynychu digwyddiad.

Bu'r grŵp yn trafod y mesur ar haneru'r gyllideb hyfforddiant, a chadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y tîm Adnoddau Dynol yn edrych ar y cyfleoedd 'buddsoddi i arbed' a ffyrdd eraill o wella effeithlonrwydd yn y maes hwn.

O ran prydles y blaendraeth, cadarnhawyd bod trafodaethau wedi'u cynnal gydag Ystad y Goron, a bod yr Awdurdod wedi cael gwybod bod prydles y blaendraeth yn cael ei diweddaru i fod yn fwy teg ac i wella'r modd y cyflawnir yr amcanion cadwraeth. Y gobaith oedd y byddai'r brydles ddiwygiedig yn caniatáu i'r Awdurdod o leiaf adennill y costau yn llawn am y gwaith a gyflawnir gan yr Awdurdod.

[Gadawodd y Cynghorydd M James y cyfarfod yr adeg hon.]

Bu'r grŵp yn trafod y dreth ymwelwyr all gael ei chodi, a'r ansicrwydd ynghylch cyflwyno'r dreth. Eglurodd y Prif Weithredwr ei fod o'r farn, pe na bai Treth Ymwelwyr yn cael ei chyflwyno, y dylai'r Awdurdod ystyried terfynu rhai o'r cyfraniadau i wasanaethau Cyngor Sir Penfro.

Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'r Swyddogion yn gwybod, erbyn mis Mai 2027, faint yn union fydd y cyllid a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru i'r Awdurdod, a rhagwelir y byddai'r gyllideb a ddyrennir yn gyllideb debyg am y 3 blynedd ganlynol. Awgrymwyd y byddai cyllideb tair blynedd o gymorth i'r Swyddogion ac i'r Aelodau lunio mesurau i fynd i'r afael â diffyg ariannol yr Awdurdod.

Nodwyd.

4. Y Camau Nesaf

Trafodwyd y camau nesaf ar gyfer y grŵp, a chytunwyd, oherwydd sefyllfa ariannol yr Awdurdod a lefel yr ansicrwydd, na fyddai dim ond mesurau arbed costau heblaw am gostau staff yn ddigon i fynd i'r afael â'r diffyg ariannol, ac y byddai angen i'r Aelodau ystyried yr holl opsiynau a blaenoriaethau'r Awdurdod ar gyfer y dyfodol. Tynnodd Aelod sylw at y ffaith bod cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yn parhau i fod yn ddigonol, fodd bynnag, y byddai'n hanfodol i'r Awdurdod gael cynllun ar waith i fynd i'r afael â'r diffyg cynyddol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai angen i'r Awdurdod ddatblygu strategaeth fyddai'n galluogi gweithredu'n gyflym pe bai gofyn.

Nodwyd.

5. Adroddiad Blynyddol Drafft ar Amrywio Incwm

Dywedodd Aelod y byddai angen i'r grŵp ystyried materion megis cynhyrchu incwm, effeithlonrwydd, arloesi a newid gwasanaeth, cynlluniau buddsoddi i arbed, ac arbedion staff. O ystyried hyn, awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid cynnwys cais yn yr Adroddiad Blynyddol i ehangu cylch gwaith y grŵp, a chytunwyd ar hyn gan yr Aelodau.

Nodwyd.